
**Dathlwch Ben-blwydd y Loteri Genedlaethol trwy bostio eich hunlun bysedd wedi'u croesi!**

**#OherwyddChi**



## Ymunwch â ni i ddweud diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol! #OherwyddChi, rydym wedi gallu ariannu prosiectau anhygoel ar draws y DU

Ar **ddydd Mercher, 19 Tachwedd 2025,** bydd miloedd o bobl yn postio hunluniau bysedd wedi'u croesi i ddweud diolch yn fawr i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am eu cyfraniad enfawr tuag at achosion da ar draws y wlad. **Fe'ch gwahoddir chi i gymryd rhan.**



Eleni, rydym wedi diweddaru ein hashnod o #DiolchIChi i **#OherwyddChi** – gan ddathlu sut mae arian y Loteri Genedlaethol yn gwneud eich gwaith anhygoel yn bosibl, y cyfan oherwydd pob unigolyn sy'n chwarae'r Loteri Genedlaethol.

Mae'r Loteri Genedlaethol yn bodoli i newid bywydau bob dydd. Ers 1994, mae wedi bod yn cynnig gobaith – boed os yw hynny'n chwarae'r EuroMIllions, ymgeisio am arian y Loteri Genedlaethol, neu wylio eich prosiect ysbrydoledig yn dod yn fyw.

**#OherwyddChi** – oherwydd chwaraewyr y Loteri Genedlaethol – **caiff £30 miliwn ei godi bob wythnos** ar gyfer achosion da yn y DU. Fel prosiect a ariennir gan y Loteri Genedlaethol, rydych yn rhan o rwydwaith anhygoel o dros 250,000 o sefydliadau sy'n newid bywydau bob dydd, a'r cyfan wedi'i wneud yn bosibl gan bobl yn credu y gallai fod yn nhw.

**Gadewch i ni wneud i'r Diwrnod Hunluniau Bysedd wedi'u Croesi fod yn fwy ac yn well nac erioed!**

# Sut allaf gymryd rhan?

Mae ymuno yn hawdd. Gofynnwn i chi hel eich cefnogwyr at ei gilydd – gan gynnwys eich gwirfoddolwyr, staff, defnyddwyr gwasanaeth – gyda chais syml iawn:

- Rhannwch eich hunlun bysedd wedi'u croesi ar ddydd Mercher 19 Tachwedd 2025. Gall hyn fod ar unrhyw lwyfan cyfryngau cymdeithasol o'ch dewis.

- Cofiwch gynnwys neges am sut mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol wedi helpu eich sefydliad, a dweud diolch wrth chwaraewyr y Loteri Genedlaethol gan ddefnyddio'r hashnod **#OherwyddChi.**



Yn ogystal â bod yn symbol eiconig y Loteri Genedlaethol, mae bysedd wedi'u croesi yn symbol o obaith – gan helpu pobl i wneud y cysylltiad rhwng y gêm a'r achosion da a gefnogir gan y Loteri.

Peidiwch ag anghofio ein tagio ni! Ein dolenni yw:

Facebook: Lottery Good Causes

Instagram: @NationalLotteryGoodCauses

X: @LottoGoodCauses

LinkedIn: National Lottery Promotions Unit

TikTok:@nationalotterygoodcauses

# PWY ALL GYMRYD RHAN?

Ar y diwrnod, buasem wrth ein boddau pe gallech bostio hunluniau bysedd wedi'u croesi i gyfrifon cymdeithasol eich sefydliad ac annog eich cefnogwyr i wneud yr un peth.

Er enghraifft, fe allech estyn allan at:

- Staff a gwirfoddolwyr
- Defnyddwyr gwasanaeth a buddiolwyr
- Uwch randdeiliaid – e.e. gwleidyddion lleol
- Codwyr arian

Mae croeso i chi fod yn greadigol gyda'ch hunluniau bysedd wedi'u croesi – trwy ychwanegu brandiau neu bropiau hwyliog, mynd â'ch lluniau bysedd wedi'u croesi tu allan, yn eich lleoliadau neu brosiectau, neu ar grwydr yn eich cymuned... Mae'r posibiliadau yn ddi-ben-draw!


@St Nicks Local Nature Reserve




@Froglife

# PAM?

Bydd prosiectau a sefydliadau o bob cwr o'r DU yn postio hunluniau ar **ddydd Mercher 19 Tachwedd 2025** – o elusennau cenedlaethol i grwpiau llawr gwlad– a buasem wrth ein boddau pe gallech fod yn rhan o'r diwrnod o ddathlu hynod hwn.

Mae cymryd rhan yn gyfle gwych i amlygu'r ffordd y mae eich elusen neu grŵp wedi gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl yn eich cymuned leol.

Trwy bostio hunluniau bysedd ar y diwrnod, byddwch yn dangos eich bod yn rhan o rwydwaith anhygoel o elusennau a grwpiau cymunedol sy'n newid bywydau bob dydd, ac yn amlygu'r effaith y mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol wedi ei chael drwy ariannu eich gwaith.

Bydd defnyddio'r hashnod **#OherwyddChi** hefyd yn codi proffil eich brand a chyfryngau cymdeithasol ar y diwrnod ac yn rhoi cyfle i bobl glywed am eich prosiect.

# DIOLCH

Gyda'n gilydd, gallwn sicrhau fod y cyhoedd yn gwybod sut mae chwarae'r Loteri Genedlaethol yn gwneud gwahaniaeth i achosion da ar draws y DU.

Rydym yn hynod ddiolchgar am eich cefnogaeth, ac am y cyfan rydych wedi'i wneud i helpu eich cymuned.

Gadewch i ni weiddi amdano gyda'n gilydd!



Modd Bysedd Wedi'u Croesi YMLAEN! 🤞